**CYNGOR CAERDYDD**
**CARDIFF COUNCIL**

# CYFARFOD Y CABINET: 22 MEHEFIN 2023

---

## SAFONAU'R GYMRAEG: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23

## YR ARWEINYDD (Y CYNHGORYDD HUW THOMAS)

**EITEM AGENDA:**

---

### Rheswm dros yr Adroddiad hwn

**1.** Cytuno ar gynnwys Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23 a'i gymeradwyo cyn cyhoeddi'n ffurfiol, yn unol â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

### Cefndir - Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23

**2.** Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n sefydlu sut y dylai sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoliadau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015).

**3.** Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Caerdydd yn '*Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*'. Mae copi o'r safonau, y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, ar gael o:

www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog

**4.**

> **Prif nod y ddeddfwriaeth (safonau) yw sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda'r pwyslais ar gynnig a chofnodi dewis iaith yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gweithiwr unigol i wneud cais am wybodaeth neu wasanaethau yn y Gymraeg.**

**5.** Mae safonau'r Gymraeg wedi'u drafftio gyda'r bwriad o:

- wella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn Gymraeg;
- cynyddu'r defnydd a wna pobl o wasanaethau Cymraeg;

- ei wneud yn glir i sefydliadau beth mae’n rhaid iddynt ei wneud o ran yr iaith Gymraeg; a

- sicrhau bod lefel briodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a roddir ar sefydliadau yn yr un sectorau.

**6.** Derbyniodd pob awdurdod lleol hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2015 sy’n rhestru’r safonau a’r dyddiad cydymffurfio y mae disgwyl i’r sefydliad gydymffurfio â nhw. Rhoddwyd **171 o safonau** i Gyngor Caerdydd.

**7.** Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gydymffurfio â safonau’r Gymraeg sy'n cynnwys y gofyniad i lunio adroddiad blynyddol am gydymffurfiaeth â’r safonau hyn.

**8.** Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol bob blwyddyn sy'n nodi’r wybodaeth ganlynol.

| **Cwynion** |
|---|
| Nifer y cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno sy'n ymwneud â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg. |
| **Sgiliau Cymraeg Cyflogeion** |
| Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw. |
| **Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg** |
| ➢ Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.<br>➢ Os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn honno, canran cyfanswm y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg. |
| **Swyddi a Hysbysebwyd** |
| Nifer y swyddi newydd ac a oedd yn wag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn ac a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle:<br>• mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol;<br>• mae angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd;<br>• mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu<br>• nid oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol. |

**9.** Gall Comisiynydd y Gymraeg ymchwilio i unrhyw fethiant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gall gymryd camau gorfodi, gan gynnwys gosod cosb sifil, gan ei gwneud hi'n ofynnol darparu cynllun gweithredu i wneud iawn am dorri'r safonau.

**10.** Y terfyn cyhoeddi statudol ar gyfer Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022/23 yw **30 Mehefin 2023**.

**Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2022/23 – Crynodeb o'r Cyflawniadau**

**11.** Hysbysebodd y Cyngor **77** o swyddi Cymraeg hanfodol, a **1222** o swyddi ychwanegol lle'r oedd y Gymraeg yn ofyniad dymunol. Mae nifer y swyddi Cymraeg hanfodol a dymunol a hysbysebwyd yn cynrychioli cynnydd o **15%** ac **89%** yn y drefn honno o gymharu â 2021/22.

**12.** Cyfieithodd Caerdydd Ddwyieithog **13,478,771 o eiriau** yn ystod 2022-23 (dychwelwyd **99.9%** o'r holl geisiadau i'r cleient erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno).

**13.** Derbyniodd prosiect Pencampwr Addysg Gymraeg De-ddwyrain Cymru, gyda chefnogaeth Awdurdodau Lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a'r Mentrau Iaith, gyllid gan Lywodraeth Cymru.

**14.** Mae Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor yn cael cefnogaeth tri swyddog ieuenctid Cymraeg eu hiaith ychwanegol mewn partneriaeth â Menter Iaith Caerdydd a'r Urdd.

**15.** Mae Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog wedi'i sefydlu a'i gefnogi'n ariannol gan y Cyngor i rymuso ein pobl ifanc i gyflwyno eu blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth Gymraeg.

**16.** Mae Caerdydd Ddwyieithog, a Fforwm Caerdydd Ddwyieithog, wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) deng mlynedd y Cyngor a gyflwynwyd i'w gymeradwyo yn Rhagfyr 2022.

**17.** Cwblhawyd e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith Cyngor Caerdydd gan **634** o staff yn 2022/23.

**18.** Yn 2022-23, cymerodd **1593** aelod o staff ran mewn cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg.

**19.** Mynychodd **253** o aelodau staff Cyngor Caerdydd gyrsiau Cymraeg ffurfiol a ddarparwyd gan Academi Caerdydd a'r fenter Iaith Gwaith.

**20.** Mae nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg wedi cynyddu **5.9%** ers 2021-22 ac yn cynrychioli **20.06%** o'r gweithlu sydd wedi'i gofrestru ar system AD DigiGOV y Cyngor.

**21.** Dyrannwyd lleoedd Derbyn i 661 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg ar gyfer mis Medi 2022, sef **17.4%** o gyfanswm y derbyniadau ar draws y ddinas. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o’i gymharu â 2021/22.

**22.** Fe wnaeth dros 32,000 o bobl fynychu Gŵyl Tafwyl yn 2022. Mae Cyngor Caerdydd yn cefnogi'r ŵyl.

**23.** Cafodd digwyddiadau diwylliannol Cymreig fel Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae a’r Diwrnod Hawliau eu hyrwyddo'n llwyddiannus ar draws y Cyngor.

**24.** Cynhaliodd C4, grŵp siaradwyr a dysgwyr Cymraeg Cyngor Caerdydd, ddigwyddiad Dydd Gŵyl Dewi yn Neuadd y Sir ar 1 Mawrth 2023 a fynychwyd gan dros **40** aelod o staff.

**Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27**

**25.** Mae Safon 145 yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor adolygu ei strategaeth hybu'r Gymraeg a chyhoeddi diwygiad o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi'r strategaeth flaenorol.

Mae Safon y Gymraeg 145 yn datgan:

| |
|---|
| **Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy’n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hyrwyddo’r Gymraeg ac i hwyluso defnydd o’r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i’r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) - (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a (b) datganiad sy’n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu’r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi’r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).** |

**26.** Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yw ail iteriad Cyngor Caerdydd o'i strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'n dilyn strwythur Cymraeg 2050 – cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae pob un o gamau gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn cefnogi'r gwaith o gyflawni tair thema strategol Cymraeg 2050.

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

**27.** Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor 2022-32 (CSCA) ac mae'n cynnwys nifer o gamau gweithredu i gefnogi'r gwaith o gyflawni Deilliannau’r CSCA.

**28.** Mae'n ddyletswydd statudol o dan safon 145 i gynnwys targed yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd.

**29.** Roedd y targedau ar gyfer y cynnydd gofynnol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd i gefnogi Cymraeg 2050 ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 wedi eu seilio ar amcanestyniadau o Gyfrifiad 2011 a ffynonellau data ychwanegol fel yr Arolwg Poblogaeth Cenedlaethol. Cyflwynodd yr amcanestyniad hwn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd fel 43,223 yn 2022.

**30.** Mae canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 bellach wedi dod i law, ac yn dangos bod canran poblogaeth Caerdydd (3+ oed) sy'n siarad Cymraeg wedi cynyddu o 11.1% yn 2011 i 12.2% yn 2021.

**31.** Mae'r 12.2% o boblogaeth Caerdydd (3+ oed) a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021 (362,400) yn rhoi cyfanswm o 44,213. Felly mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2021 ychydig yn uwch na'r amcanestyniadau a gyflwynwyd ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27.

**32.** Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd gofyn i nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd gynyddu o'r 44,213 a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2021 i 46,565 yn 2027. Mae hyn gyfystyr â chynnydd blynyddol o 392.

**33.** Mae angen cynnydd o 1960 yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros gyfnod 5-mlynedd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27. Mae hwn yn gynnydd canrannol blynyddol o 1.25% - gostyngiad bychan o'r cynnydd angenrheidiol o 1.5% a gyflwynwyd yn y strategaeth yn 2022.

**34.** Fel canran o boblogaeth Caerdydd, byddai siaradwyr Cymraeg yn cynyddu o 12.2% yn 2021 i 12.5% yn 2027 (gan ragweld cynnydd o 2.35% ym mhoblogaeth y ddinas yn y cyfnod hwn).

**35.** Mae Strategaeth Caerdydd Dwyieithog 2022-27 yn cynnwys camau gweithredu sy'n deillio o'r argymhellion a ddaeth i law o ganlyniad i'r adolygiad annibynnol ar Strategaeth Caerdydd Dwyieithog 2017-2022, a weithredwyd fel a ganlyn:

- Diweddaru targedau'r cynllun gweithredu ar ôl derbyn data Cyfrifiad 2021.

  Mae canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 yn dangos cynnydd o 1.1% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd. Mae'r targedau yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg wedi eu diwygio yn unol â'r uchod.

- Mapio'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol ar gyfer plant a phobl ifanc i roi gwaelodlin er mwyn gallu ei ehangu.

Daeth yr ymarfer mapio i ben a bydd ei ganfyddiadau'n cael eu hadrodd i Fforwm Caerdydd Ddwyieithog ym mis Mai 2023. Mentrau i ddatblygu darpariaeth Gymraeg i blant a phobl ifanc ar y gweill - gweler **Plant a Phobl Ifanc** isod).

- Ehangu aelodaeth Fforwm Caerdydd Ddwyieithog i gynnwys swyddogion priodol y Cyngor a chynrychiolwyr y sector preifat / busnesau.

  Swyddogion o Wasanaeth Ieuenctid Caerdydd, Addewid Caerdydd, Dinas sy'n Dda i Blant a Chydraddoldeb wedi ymuno â'r Fforwm. Mae tîm sector preifat Comisiynydd y Gymraeg yn bresennol i gynrychioli busnesau Caerdydd a gwahoddiadau wedi mynd allan i sectorau eraill o fewn y ddinas.

- Ymchwilio i fecanweithiau asesu effaith a'u gweithrediad.

  Mae canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar gynnal asesiadau effaith yn cynnig model ar gyfer asesu effeithiolrwydd yr ymyriadau a gyflwynwyd yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 a hyd a lled eu llwyddiant.

- Aliniwyd deilliannau strategol Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 gyda Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-31.

  Gan weithio mewn partneriaeth ag Adran Addysg y Cyngor a Fforwm Caerdydd Ddwyieithog, mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022/23 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-31 wedi eu halinio o ran eu canlyniadau strategol ac yn cynnwys camau gweithredu a thargedau a rennir. Derbyniodd y CSCA gymeradwyaeth derfynol Llywodraeth Cymru fis Mawrth 2023.

- Ehangu tîm polisi Caerdydd Ddwyieithog.

  Mae'r Tîm Polisi wedi cael ei ehangu i gynnwys rôl Swyddog Polisi Caerdydd Ddwyieithog FTE ychwanegol.

**36.** Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 wedi'i chynnwys fel **Atodiad 2**. Fe'i derbyniwyd gan Gyngor Caerdydd ar 3 Mawrth 2022.

Disgrifir rhai o'r prif lwyddiannau wrth weithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 ym mlwyddyn gyntaf ei gweithrediad isod:

**Plant a Phobl Ifanc**

**37.** Canolbwyntiodd Diwrnod Hawliau'r Gymraeg 2022 ar ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg i hyrwyddo darpariaeth i blant a phobl ifanc. Cafodd hyn ei gefnogi gan Gyngor Caerdydd yn ei gyfathrebu a'i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd a phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog.

**38.** Mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd mewn partneriaeth â Menter Caerdydd a'r Urdd wedi sefydlu darpariaeth Gymraeg newydd i blant a phobl ifanc o dan frand CFTi. Bydd y brandio hwn yn caniatáu i ddarpariaeth Gymraeg fod yn fwy gweladwy a'i marchnata'n fwy effeithiol.

**39.** Mae darpariaeth Cymraeg i blant a phobl ifanc yn cael ei gefnogi gan dri gweithiwr ieuenctid a ariennir gan y Cyngor ar gyfer Menter Caerdydd, yr Urdd, a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y drefn honno. Erbyn hyn mae gan bob Ysgol Uwchradd Gymraeg Swyddog Ieuenctid dynodedig Gymraeg.

**40.** Mae Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyieithog wedi'i sefydlu gyda chymorth gan bartneriaid Caerdydd Ddwyieithog. Mae'r Fforwm yn cwrdd bob pythefnos yn yr Hen Lyfrgell yn yr Ais ac yn grymuso pobl ifanc y ddinas i arwain ar ddatblygu'r ddarpariaeth. Mae gweithgareddau a nosweithiau Cymraeg hefyd yn cael eu cyflwyno yng Nghanolfannau Ieuenctid y ddinas.

**41.** Bydd darpariaeth Gymraeg yn cael ei datblygu ymhellach i gefnogi cyflawni Deilliant 5 CSCA 2022-31 Cyngor Caerdydd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol a’r tu allan i leoliadau ysgolion. Mae'r is-grŵp sy'n cefnogi cyflawni Deilliant 5 y CSCA yn cael ei gadeirio a'i weinyddu gan Bennaeth Gaerdydd Ddwyieithog.

**Pencampwr Addysg Gymraeg y De-ddwyrain**

**42.** Arweiniodd Cyngor Caerdydd bartneriaeth rhwng holl Awdurdodau Lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a’r Mentrau Iaith rhanbarthol i greu swydd Pencampwr Addysg Gymraeg newydd ac mae'r arian ar gyfer prosiect peilot wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

**43.** Bydd y Pencampwr yn gweithio i gynyddu mynediad at addysg Gymraeg ar draws y rhanbarth drwy farchnata a hyrwyddo a thrwy wneud gwybodaeth ynghylch dewis ysgolion yn fwy hygyrch i rieni.

**44.** Mae'r prosiectau y cytunwyd arnynt i gefnogi gwaith yr Hyrwyddwr yn cynnwys:

- Hyrwyddo addysg Gymraeg o fewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig.
- Hyrwyddo a datblygu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymraeg.
- Asesu targedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdodau Lleol ar lefel ranbarthol.
- Mapio'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol ar draws y rhanbarth.

**CSCA Cyngor Caerdydd 2022-31**

**45.** Yn dilyn adolygu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-22, argymhellwyd bod y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2022-27 a CSCA

2022-31 Cyngor Caerdydd yn alinio. Diwygiwyd y ddwy strategaeth i gynnwys gweithredoedd ac amcanion sy'n gefnogol i'w gilydd.

**46.** Cynhaliwyd aliniad o'r CSCA a Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 mewn partneriaeth ag Adran Addysg y Cyngor a'i gefnogi gan Dîm Polisi Caerdydd Dwyieithog a chynrychiolwyr Fforwm Caerdydd Ddwyieithog.

**47.** Sefydlwyd is-grwpiau i arwain ar ddatblygu cynllun gweithredu'r CSCA a chyflwyno 7 Deilliant y CSCA. Roedd aelodaeth yr is-grwpiau hyn yn cynnwys swyddogion Tîm Polisi Caerdydd Ddwyieithog a phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog.

**48.** Cyflwynodd Deilliant 5 y CSCA gamau gweithredu i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i leoliadau ysgol. Gan fod y Deilliant hwn yn croes-gyffwrdd yn sylweddol gyda thema strategol Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, cadeiriwyd yr is-grŵp y CSCA gan Bennaeth Caerdydd Ddwyieithog.

**49.** Cytunwyd ar gynllun gweithredu'r CSCA gan Fforwm Addysg Gymraeg y Cyngor ym mis Tachwedd 2022 a chafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol yn Rhagfyr 2022.

**Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyieithog**

**50.** Mae'r gweithgor hwn sy'n aelodau trawsbleidiol o gynghorwyr yn cyfarfod bob chwarter i drafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg gan gynnwys gweithrediad Safonau'r Gymraeg gan Gyngor Caerdydd a'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau Cymraeg.

**51.** Yn ystod 2022/23 rhoddodd y grŵp oruchwyliaeth dros yr ymchwiliadau statudol a dderbyniwyd gan Gyngor Caerdydd gan Gomisiynydd y Gymraeg, datblygiad CSCA 2022-31, darpariaeth Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-23, a gweithrediad Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd.

**Defnydd o'r Gymraeg**

**52.** Mae argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet gan Weithgor Aelodau trawsbleidiol Caerdydd Ddwyieithog bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Gymraeg gan Gyngor Caerdydd yn ei gyfathrebu a'i gyfryngau cymdeithasol.

**53.** Yr argymhelliad yw defnyddio ymadroddion Cymraeg fel Bore da, Prynhawn da a Diolch mewn cyfathrebiadau a thudalennau'r cyfryngau cymdeithasol yn y Saesneg er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu ei amlygrwydd o fewn cyfathrebiadau'r Cyngor.

**<u>Goblygiadau Ariannol</u>**

**54.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi perfformiad y Cyngor yn unol â Safonau'r Gymraeg a lluniwyd Cynllun Gweithredu hefyd i gyd-fynd ag ef.

Dylid ystyried yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i weithredu'r camau gweithredu a bod yn fodlon y gellir gwneud y rhain o fewn y dyraniad cyllidebol presennol a bod y ffynhonnell ariannu'n cael ei nodi cyn rhoi'r camau hyn ar waith.

**Goblygiadau Cyfreithiol**

**55.** Mae'r adroddiad yma yn ymdrin â cyfrifoldebau statudol y Cyngor yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n cynnwys dyletswydd i roi sylw i'r Mesur a Safonau'r Iaith Gymraeg o ran unrhyw benderfyniadau polisi ac i ystyried yr effaith ar yr iaith Gymraeg wrth wneud y penderfyniadau yma.

**56.** Wrth ystyried y mater hwn, rhaid i'r Cyngor barchu ei ddyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus o dan Deddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sy'n benodol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru). Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r angen i

(1) dileu gwahaniaethu anghyfreithlon,

(2) datblygu cyfle cyfartal a

(3) meithrin perthnasoedd da ar sail nodweddion gwarchodedig

Y nodweddion gwarchodedig yw oed, ailbennu rhywedd, rhyw, hil (gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd), anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred - gan gynnwys diffyg cred).

Wrth wneud penderfyniadau strategol, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol hefyd i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol ('y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol' a osodir o dan adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010).

Wrth ystyried hyn, rhaid i'r Cyngor roi sylw i'r canllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (WG42004 Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 (llyw.cymru) a rhaid iddo allu dangos sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswydd.

**57.** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar gyrff cyhoeddus gyda'r bwriad o geisio cyflawni 7 nod llesiant cenedlaethol Cymru – Cymru sy'n ffyniannus, yn wydn, yn iachach, yn fwy cyfartal, sydd â chymunedau cydlynus, sydd â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau dan y Ddeddf hon, mae'r Cyngor wedi gosod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd â'r nod o gyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni'r targedau llesiant cenedlaethol. Nodir yr amcanion llesiant yng Nghynllun Corfforaethol Caerdydd ar gyfer 2021-24. Wrth arfer ei swyddogaethau, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd pob cam

rhesymol i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae hyn yn golygu y dylai swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau ystyried sut bydd y penderfyniad arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion llesiant, ac mae'n rhaid iddynt fod yn fodlon bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r ddyletswydd o ran llesiant hefyd yn golygu bod rhaid i'r Cyngor weithredu'n unol ag 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae'r egwyddor yn mynnu bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu cyflawni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Yn syml, mae hyn yn golygu bod gofyn i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau ar y bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor:

- Edrych i'r hirdymor
- Canolbwyntio ar atal trwy ddeall gwreiddiau problemau
- Cyflawni ymagwedd integredig i gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol
- Gweithio ar y cyd ag eraill i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy
- Cynnwys pobl o bob rhan o'r gymuned mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

Rhaid i'r sawl sy'n penderfynu fod yn fodlon bod y penderfyniadau arfaethedig yn unol â'r egwyddorion uchod; a dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i'r Canllaw Statudol a roddwyd gan Weinidogion Cymru, y gellir ei weld trwy ddefnyddio'r ddolen isod:

https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau

**Goblygiadau o ran AD**

**58.** Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg yn cynnwys cydymffurfio â'r safonau hynny sy'n ymwneud â rôl y Cyngor fel cyflogwr. Bydd llawer o'r mentrau a amlygir yn yr adroddiad yn parhau ac yn cael eu hatgyfnerthu. Mae'r manylion yn cynnwys:

- sicrhau darpariaeth hyfforddiant barhaus i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws y Cyngor yn unol â Strategaeth Gweithlu a Strategaeth Sgiliau'r Gymraeg y Cyngor;
- darparu hyfforddiant iaith Cymraeg ar bob lefel ar gyfer pob cyflogai;
- darparu hyfforddiant arall fel Cymorth Cyntaf a chyrsiau Iechyd a Diogelwch yn y Gymraeg;
- hyrwyddo cyfleoedd gwaith i grwpiau sy'n fedrus yn y Gymraeg;

- gwasanaethau i barhau i adolygu a gwella eu cynnig Cymraeg trwy gynyddu nifer y swyddi Cymraeg hanfodol; a

- sicrhau cynnydd yn nifer y swyddi sy’n nodi'r Gymraeg fel un o’r meini prawf hanfodol neu ddymunol.

**<u>Goblygiadau o ran Eiddo</u>**

**59.** Nid oes goblygiadau o ran eiddo yn deillio o’r adroddiad hwn. Bydd yr Adran Ystadegau Strategol yn ymgeisio i gynnal yr holl hyfforddiant berthnasol ac i gydymffurfio gyda unrhyw Safonau Iaith Gymraeg, cyngor statudol a deddfwriaeth sydd yn berthnasol wrth ymgymryd â’i weithgareddau.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Cabinet yn argymell bod y Cyngor yn:

**1)** Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23 (ynghlwm fel **Atodiad A**) cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol yn unol â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg) (Cymru) 2011).

| | |
|---|---|
| **UWCH SWYDDOG CYFRIFOL** | **Sarah McGill**<br><br>**Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau** |
| | 16 Mehefin 2023 |

*Mae’r atodiadau canlynol ynghlwm:*

**Atodiad A** Adroddiad Blynyddol Safonau’r Gymraeg 2022-23

**Atodiad 1** Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27

**Atodiad 2** Cynllun Gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-23